# Newidiadau i'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

## Diben

1. Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gyngor Datblygu'r Economi am gynlluniau i newid pwyslais y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC) ar ôl y Datganiad Ysgrifenedig a wnaed ar 5 Medi gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid.

## Y cyd-destun

2. Dechreuodd y GCC ar ei waith ym mis Tachwedd 2013. Yr egwyddor, wrth sefydlu'r gwasanaeth, oedd sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chyflawni amcanion polisi drwy fynd ati unwaith ar lefel Cymru gyfan i brynu'r nwyddau a'r gwasanaethau hynny sy'n cael eu defnyddio'n aml gan y sector cyhoeddus. Ymrwymodd dros 20 o sefydliadau yn y sector cyhoeddus i ddefnyddio gwasanaethau'r GCC.

3. Ym mis Medi 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid fod adolygiad i'w gynnal o'r GCC a Gwerth Cymru. Nod yr adolygiad oedd cadarnhau blaenoriaethau'r rhanddeiliaid er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu cynigion trefniadol i helpu'r sector cyhoeddus yng Nghymru i fanteisio i'r eithaf ar y £6 biliwn o wariant blynyddol ar gaffael, gan fanteisio ar unrhyw gyfleoedd a ddaw yn sgil Brexit. Un o'r nodau eraill oedd helpu i liniaru'r effaith y mae polisi cyni Llywodraeth y DU yn parhau i'w cael.

4. Rhyddhaodd Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad ar 5 Medi yn cyhoeddi bod yr adolygiad hwnnw wedi dod i ben ac y bydd y GCC yn newid i fod yn uned gontractio ganolog a fydd yn llai o faint ac yn ymdrin â phortffolio llai o gontractau cenedlaethol.

## Argymhelliad

4. Gofynnir i Gyngor Datblygu'r Economi nodi cynnwys y papur hwn.

## Cyflenwi drwy'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

5. Ar hyn o bryd, mae'r GCC yn rheoli 60 o fframweithiau cenedlaethol ar draws amryfal gategorïau sy'n cynnwys adeiladu; corfforaethol a busnes; fflydoedd a thrafnidiaeth; bwyd; TGCh; gwasanaethau i bobl; a gwasanaethau proffesiynol.

6. Mae 705 o gyflenwyr wedi cael eu penodi i'r fframweithiau hyn, ac mae 47% (334) ohonynt yng Nghymru a 39% (273) yn BBaChau yng Nghymru.

7. Ym mlwyddyn ariannol 2017-18, gwariwyd rhyw £300,000 miliwn drwy fframweithiau a oedd yn cael eu rheoli gan y GCC. Yn ôl adroddiadau'r GCC, llwyddwyd i sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd a ganlyn:
   - Rhyddhau arian parod - £2.8 miliwn;
   - Osgoi costau - £12.1 miliwn;
   - Arbedion effeithlonrwydd ar brosesau - £3.6 miliwn.

**Adolygiad o'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru**

8. Gwelwyd wrth i'r adolygiad fynd rhagddo fod blaenoriaethau cwsmeriaid wedi newid ers i'r GCC gael ei sefydlu.

9. Er bod arbedion yn bwysig o hyd, dywedodd cwsmeriaid fod angen ffordd wahanol o weithio arnynt a fyddai'n rhoi mwy o gymorth iddynt gyflawni nodau a blaenoriaethau llesiant rhanbarthol a lleol.

10. Er mwyn helpu i ddiwallu'r anghenion hynny, mae'r rhaglen bresennol a'r rhaglen arfaethedig o weithgarwch contractio yn cael eu hasesu er mwyn helpu gyda'r newid i uned lai a fydd yn trefnu cytundebau a fydd yn sicrhau'r gwerth mwyaf posibl ar lefel genedlaethol ar gyfer y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru.

11. Er mwyn newid y pwyslais a chydweithredu mwy wrth gaffael, bydd gofyn gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid cymdeithasol i edrych ar amrywiaeth o feini prawf, gan gynnwys faint o gyflenwyr sydd ar gael yng Nghymru ar draws y categorïau gwariant, y cyfleoedd i ddatblygu'r farchnad mewn ardaloedd lle nad oes cyflenwyr, a'r potensial i wneud cymaint ag y bo modd i gyrraedd y nodau llesiant.

12. Bydd gwaith yn cael ei wneud ar y cyd â rhanddeiliaid i ddatblygu ffordd newydd o ddatblygu polisi a'i roi ar waith. Drwy wneud hynny, byddwn yn ymateb i geisiadau clir a wnaed gan randdeiliaid am fwy o gymorth ymarferol i helpu i wella gallu a chysondeb ar draws sector cyhoeddus Cymru, yn enwedig mewn meysydd fel gofal cymdeithasol ac adeiladu.

13. Wrth gynnal yr adolygiad, edrychwyd ar ddatblygiadau ym maes caffael ar draws y DU, gan gynnwys y dulliau a ddatblygwyd gan gynghorau Preston a Manceinion. Aed ati hefyd i ystyried yr arferion gorau yn aelod-wladwriaethau'r UE ac yn UDA. Bydd y gwaith ymchwil ehangach yn llywio rhaglen gaffael y dyfodol, a fydd yn datblygu ffyrdd o weithio a fydd yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed eisoes ac a fydd yn helpu i sicrhau twf mwy cyfartal mewn cyfoeth economaidd a chyfoeth cymunedol ym mhob cwr o Gymru.

**Y camau nesaf**

14. Mae swyddogion wrthi'n datblygu'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol a'r gwaith pontio, a byddant yn rhannu'r manylion hynny â rhanddeiliaid yn ystod y misoedd nesaf, er mwyn gwahodd adborth a fydd yn helpu i lywio'r ffordd ymlaen.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

**TEITL** **Adolygiad o'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru**

**DYDDIAD** **Medi 2018**

**GAN** **Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**

Fis Medi diwethaf, cyhoeddais adolygiad o waith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru. Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion am ganlyniadau'r adolygiad a'r camau nesaf i'w cymryd.

Bwriad yr adolygiad oedd cadarnhau blaenoriaethau'r rhanddeiliaid er mwyn manteisio i'r eithaf ar y £6bn o wariant caffael blynyddol ar draws Cymru ar adeg pan fo pwysau na welwyd ei debyg o'r blaen ar wasanaethau cyhoeddus ac wrth i'r DU baratoi i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Ers cyhoeddi'r adolygiad, mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol wedi lansio ei ymchwiliad ei hun i gaffael, ac rwyf wedi dilyn yr ymchwiliad hwnnw gyda diddordeb. Heddiw fe ysgrifennais at gadeirydd y pwyllgor i nodi sut y ceisiodd yr adolygiad hwn ymateb i ymrwymiadau a wnaed yn ystod yr ymchwiliad ac i ddatganiad am gaffael cyhoeddus yn y Cyfarfod Llawn ar 2 Mai.

Bu amrywiol randdeiliaid, gan gynnwys arweinwyr sector cyhoeddus, swyddogion caffael, busnesau a'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cymryd rhan yn yr adolygiad.

Maent wedi dweud wrthym nad yw newid pwyslais y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru yn ddigon. Dangosodd yr adolygiad fod angen edrych mewn manylder ar ein ffordd o ddefnyddio cyllid cyhoeddus i helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a meithrin twf economaidd ar draws pob rhan o Gymru.

Drwy'r broses adolygu, mae rhanddeiliaid wedi cadarnhau nifer o flaenoriaethau ar gyfer caffael yn y dyfodol, gan gynnwys:

• Canolbwyntio mwy ar sicrhau cytundebau caffael ar y cyd yn unol â blaenoriaethau rhanbarthol a lleol. Yn ogystal â chaniatáu'r mynediad gorau posib at gyflenwyr Cymru, byddai dull gweithredu o'r fath hefyd yn ategu'r nodau yn y Cynllun Gweithredu Economaidd, y rhaglen ddatgarboneiddio a'n hymdrechion i wneud Cymru'n Genedl Gwaith Teg drwy arferion caffael a gwariant cyhoeddus;

• Sicrhau nifer llai o gontractau cenedlaethol lle gall systemau ar draws Cymru gyfan, mewn meysydd fel llogi cerbydau, ddarparu'r gwerth gorau am arian i gyfran fawr o sector cyhoeddus Cymru;

• Ystyried, gyda Llywodraeth y DU, sut y gallwn gryfhau ein perthynas â Gwasanaeth Masnachol y Goron er mwyn cymryd rhan yn llawn pan fo'i waith yn gyson ag anghenion a blaenoriaethau Cymru.

Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd uned cymorth cyflawni a datblygu polisi cenedlaethol yn helpu gyda'r gwaith hwn.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid er mwyn datblygu strategaeth gaffael newydd, sy'n egluro model gweithredu'r dyfodol ac yn galluogi gwerth llawn y caffael i gael ei wireddu'n genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol.

Dywedodd rhanddeiliaid y dylai'r polisi cenedlaethol hwn geisio darparu cefnogaeth newydd mewn gofal cymdeithasol ac adeiladu, gan annog cysondeb a gallu wrth gomisiynu a chaffael y meysydd hanfodol bwysig hyn o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Rhaid i drefn gaffael effeithiol gael ei hategu gan raglen datblygu sgiliau. Bydd rhaglen sgiliau a gallu newydd felly yn cael ei llunio er mwyn i swyddogion caffael ddysgu am dechnegau masnachol modern ac er mwyn cynhyrchu llif o dalent ar gyfer y dyfodol i geisio mynd i'r afael â phrinder sgiliau a bylchau sy'n cael eu creu gan wahanol strwythurau cyflog a thâl.

Mae'r rhanddeiliaid hefyd wedi dweud yn glir bod angen strategaeth gaffael ddigidol flaengar yn y dyfodol er mwyn cydweithio, symleiddio mynediad i gyflenwyr a darparu data a gwybodaeth ar gyfer gwneud polisïau a phenderfyniadau yn y dyfodol. Byddwn yn gweithio gyda'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid i ddatblygu hyn.

Er mwyn cefnogi'r gofynion hyn, rwy'n cyhoeddi y bydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn raddol ddod i ben ar ei ffurf bresennol. Mae'n amlwg nad yw darparu swm uchel o fframweithiau cenedlaethol bellach yn flaenoriaeth i gwsmeriaid, ac fe welir hyn yn lefel y gyfranogaeth yn fframweithiau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, sy'n llai na'r hyn a ragwelwyd yn yr achos busnes.

Bydd y newid hwn yn cael ei reoli er mwyn sicrhau parhad busnes mewn perthynas â chontractau fframwaith sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan gyrff cyhoeddus, ac i roi sicrwydd i gyflenwyr sy'n rhan ohonynt.

Bydd gweithrediad llai yn cael ei sefydlu i reoli portffolio llai o gontractau cenedlaethol lle bo'n amlwg bod trefniadau o'r fath yn cynnig gwerth am arian ar draws mwyafrif sylweddol o sefydliadau sector cyhoeddus Cymru.

Byddwn yn ymgynghori â thîm y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ac yn eu cynnwys wrth ddatblygu ffordd ymlaen. Bydd y rhai nad ydynt yn rhan o'r swyddogaeth gontractio genedlaethol yn cael cynnig cyfleoedd i fod yn rhan o'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau rhanbarthol a lleol, yr uned gymorth cyflawni a datblygu polisi cenedlaethol neu raglen fasnach a chaffael Llywodraeth Cymru, neu weithgareddau tebyg.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r adolygiad wedi dangos bod angen i'n polisi caffael a rhaglenni caffael cenedlaethol/rhanbarthol yn y dyfodol gael eu rheoli a'u cyflawni ar wahân fel elfennau allweddol o raglen waith strategol, trawsbynciol sydd â mwy o bwyslais ar adeiladu cyfoeth cymunedol ar draws Cymru.

Ein nod yw manteisio i'r eithaf ar wariant caffael yng Nghymru, gan ddefnyddio'r £6bn o wariant caffael blynyddol i gefnogi swyddi a thwf cynaliadwy; gwaith ac arferion gweithio teg; buddsoddi mewn seilwaith ac adeiladu; defnyddio asedau cyhoeddus a chryfhau busnesau lleol a'u cymunedau.

Mae adborth yr adolygiad wedi dangos yn glir bod rhaid i ni hefyd weithio i sicrhau cysylltiad clir rhwng caffael a nodau llesiant cyrff cyhoeddus ar draws Cymru, a sicrhau bod modd i'r cyflenwyr gymryd rhan yn well mewn prosesau caffael cyhoeddus.

Bydd fy swyddogion yn cydweithio â phartneriaid sector cyhoeddus i ddatblygu cynlluniau i symud y gwaith hwn yn ei flaen.

Caiff y datganiad hwn ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cynulliad a'r diwydiant. Os bydd Aelodau'r Cynulliad eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Cynulliad yn dychwelyd, buaswn yn hapus i wneud hynny.